| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **14 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO BETIO (AR WAHÂN I DRACIAU) WILLIAM HILL ORGANIZATION LIMITED, 25 STRYD Y MOCH PWLLHELI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 25 Stryd Moch(Gaol Street) Pwllheli, LL53 5DB gan William Hill Organization Limited, Greenside House, 50 Station Road, Wood Green, Llundain N22 7TP.
Bwriedir datblygu Uned i'r ochr dde o hen Uned manwerthu Ethel Austin ar Stryd y Moch.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Gamblo 2005 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Yn unol ag Adran 1 o'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu sef -

- Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anrhefn; cael ei gysylltu â throsedd ac anrhefn; neu gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd troseddol
- Sicrhau fod hapchwarae yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored
- Gwarchod plant ac unigolion bregus eraill rhag niwed neu gael eu hymelwa drwy hapchwarae

Mae'n ofynnol hefyd ystyried Datganiad o Bolisi Gamblo'r Cyngor yn ogystal ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo.

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r ymgeisydd yn manylu yn llawn y mesurau a gymerir gan y cwmni i sicrhau fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu cefnogi (gweler atodiad i'r adroddiad) megis –

- Mae gan y cwmni Adran benodol er mwyn cadarnhau cydymffurfiad a'r amcanion trwyddedu sydd yn gweithio gyda Heddluoedd yn lleol
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei gynnal o safbwynt diogelwch staff a chwsmeriaid, ynghyd a defnydd o Deledu Cylch Cyfyng
- Gweithredir system monitro awdio 'Staff Safe' drwy gydol yr amser.
- Gweithredir polisïau i sicrhau nad yw plant ac oedolion bregus yn cael eu niweidio neu ymelwa oddi wrth weithgareddau hapchwarae
- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i sicrhau fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu cefnogi.
- Mae'r cwmni yn gweithredu polisi 'Think 21'
- Gweithredir polisi o 'Eithrio Gwirfoddol' lle mae'n bosib i gwsmer sydd yn cydnabod posibilrwydd eu bod yn gaeth i gamblo ; eithrio eu hunain o weithgareddau betio yn yr eiddo am 12 mis.

## YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan un o drigolion lleol Pwllheli. Mae'r ymatebydd yn Weinidog ar gyfer Gofalaeth Pwllheli ac yn datgan ei wrthwynebiad ar ran unigolion yr ofalaeth. Mae'r ymatebydd yn nodi ei fod yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae bywydau teuluoedd ac unigolion bregus wedi cael eu heffeithio oherwydd problemau gamblo.

Gweler manylion llawn yr e bost a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Gamblo 2005, a Datganiad o Bolisi Gamblo'r Cyngor.